

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 9 Ionawr, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr H.C. Hamilton, M.J.G. Morgan a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: S. Ganachandran (Ymgeisydd), S. Kanapathi (Cynrychiolydd yr Ymgeisydd), J. Jones (Awdurdod Cyfrifol, Heddlu De Cymru), Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson (Person Arall), K. Stevens (Person Arall), K. Brook ac Y. Witchell (Swyddogion Trwyddedu, Cyngor Bro Morgannwg), R. Price (Swyddog Cyfreithiol, Cyngor Bro Morgannwg) ac M. Thomas (Democratiaidd a Swyddog Gwasanaethau Craffu, Cyngor Bro Morgannwg).

DS Anfonodd y Cynghorydd M.R. Wilkinson, a oedd i fod yn bresennol yn wreiddiol fel Aelod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu, ymddiheuriadau, gyda'r Cynghorydd H.C. Hamilton yn bresennol yn lle.

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – BOD Y Cynghorydd M.J.G. Morgan gael ei ethol yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawriad yr Is-bwyllgor

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. CANIATÁU TRWYDDED SAFLE – 3S CONVENIENCE STORES, 2 EVELYN STREET, BARRY, CF63 4EN –

PENDERFYNWYD – Caniatáu'r cais, ynghyd â'r amodau y cytunwyd arnynt gan Heddlu De Cymru.

Rhesymau dros y penderfyniad

Ni fyddai amod rhif 16 yn cael ei gynnwys ar y drwydded, yn caniatáu i arian parod gael ei ddefnyddio ar gyfer danfoniadau.

Hefyd, ni fyddai unrhyw ofyniad i gaeadau gael eu defnyddio, yn hytrach byddai arwyddion a hysbysiad til sy'n atal gwerthu alcohol y tu allan i oriau a ganiateir yn cael eu defnyddio.

Wrth ddod i'r penderfyniad roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb oedd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor.

Mae gan yr Ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Rhaid i'r apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig ac o fewn 21 diwrnod i Lys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg. Os bydd yr Ymgeisydd yn ansicr ynghylch ei hawlau cyfreithiol a'i gyfrifoldebau, dylai geisio cyngor cyfreithiol annibynnol